Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Adolygiad ansawdd allanol

## Mawrth 2022

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno manylion yr adolygiad ansawdd allanol y mae'n ofynnol i'w gynnal ar sefydliadau a reoleiddir o dan Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

2. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau bod y trefniadau adolygu ansawdd yn bodloni eu gofynion ar gyfer goruchwyliaeth addysgol ar drefniadau Noddi Myfyrwyr, a byddwn yn cysylltu â'r Swyddfa i sicrhau bod unrhyw drefniadau diwygiedig yn parhau i wneud hynny.

3. Yn sgil cyflwyno'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) mae'n bosibl y bydd angen diweddaru'r gofynion adolygu ansawdd allanol cyn diwedd y cylch nesaf.

## Adolygiad ansawdd allanol

4. Mae'r gofyniad i gynnal adolygiadau ansawdd allanol yn ystyriol o gyfrifoldebau statudol CCAUC o ran yr addysg a ddarperir gan ac/neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, gan gynnwys yr hyn sy'n annigonol, neu'r hyn sy'n debygol o ddod yn annigonol. Mae'n rhoi'r sicrwydd sydd ei angen o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 o ran ansawdd, er mwyn galluogi cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, a galluogi sefydliadau a reoleiddir i gyrchu cymorth i fyfyrwyr yn sgil hynny.

5. Mae'n rhaid i'r adolygiad ansawdd allanol gydymffurfio â gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer adolygiadau o'r fath. Mae'r ESG yn galluogi darparwyr addysg uwch i arddangos ansawdd a chynyddu tryloywder, gan helpu i feithrin cydymddiriedaeth a chydnabyddiaeth well o'u cymwysterau, eu rhaglenni a darpariaeth arall. Defnyddir yr ESG gan sefydliadau ac asiantaethau sicrwydd ansawdd fel dogfen gyfeirio ar gyfer systemau sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch.

6. Byddwn yn cynnal cylch treigl o adolygiadau, sy'n golygu y gallai newidiadau gael eu cyflwyno ar unrhyw bryd (gan roi 12 mis o rybudd o leiaf i sefydliadau o'u hadolygiadau). Bydd hyn yn golygu bod modd diweddaru'r dull pan fo'n briodol, yn hytrach nag aros tan ddiwedd cylch. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun CADY, a allai arwain at newidiadau i ofynion adolygu, ac o ystyried yr amrywiaeth gynyddol a geir mewn darpariaeth addysg uwch.

   Corff adolygu

7. Gan fod angen i'r adolygiad allanol gydymffurfio â'r ESG, mae'n hanfodol i'r corff sy'n cynnal yr adolygiadau fod ar y Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch (EQAR). Bydd CCAUC yn comisiynu adolygiadau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA). Bydd CCAUC yn cadarnhau amseriad adolygiadau gyda phob sefydliad cyn gynted â phosibl, ac yn cadarnhau'r flwyddyn fraenar.

Aelodaeth y tîm adolygu

8. Yn unol â gofynion yr ESG ar gyfer adolygiadau ansawdd allanol, mae'n rhaid i'r tîm adolygu gynnwys cymheiriaid arbenigol. Mae'n rhaid i'r tîm gynnwys aelod o blith y myfyrwyr. Gall y tîm adolygu hefyd gynnwys aelod rhyngwladol, yn enwedig pan fo sefydliad yn nodi ei fod yn flaenllaw yn y byd mewn meysydd astudio neu weithgarwch penodol.

9. Gellir cynnal adolygiadau yn ddwyieithog, yn ôl dewis y darparydd, a bydd angen i'r ASA roi ystyriaeth o hyn wrth benodi tîm adolygu. Bydd angen i un adolygwr o leiaf fod â dealltwriaeth o addysg uwch yng Nghymru a rôl y Gymraeg. Bydd y tîm adolygu hefyd yn cael hyfforddiant ar ystyriaethau'r Gymraeg.

Y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys

10. Mae'n rhaid i'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol gynnwys yr holl ddarpariaeth AU a gyflenwir gan, neu ar ran y sefydliad, gan gynnwys prentisiaethau gradd, darpariaeth is-gontractiol (freiniol), campysau cangen ac unrhyw ddarpariaeth arall dramor. Fodd bynnag, lle bo'n ofynnol i sefydliadau partner, darparu neu gymorth hefyd dderbyn adolygiad ansawdd allanol, bydd hi'n briodol cyfyngu'r adolygiad o'r sefydliad dyfarnu i'w reolaeth ar y trefniant hwnnw, er mwyn osgoi ailadrodd gwaith adolygu.

11. Ni fydd hyn yn atal CCAUC rhag comisiynu adolygiadau thematig ac/neu seiliedig ar risg, nac ymchwiliadau i bryderon.

Gofynion sylfaenol perthnasol

12. Mae'r gofynion sylfaenol perthnasol y bydd sefydliadau a reoleiddir yn cael eu hadolygu yn eu herbyn yn cynnwys y canlynol:
- Bod safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol sef, yng Nghymru, y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;
- Disgwyliadau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg y sefydliad, ynghyd â datganiadau ar nodweddion a datganiadau meincnodau pwnc, lle bo'n briodol;
- Arferion Craidd a Chyffredin Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch[1], mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg y sefydliad.

Gwella

13. Mae gwella yn ffocws allweddol o fewn yr adolygiad ansawdd allanol yng Nghymru. Ar y cyd â'r sector a rhanddeiliaid eraill, bydd yr ASA yn ystyried sut y gellir cryfhau'r ffocws ar wella o fewn adolygiadau, er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng gwella a sicrwydd. Rydym yn disgwyl i'r ASA ystyried sut i sicrhau

[1] Sylwch fod y Cod Ansawdd yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal profion priodol o'r gofynion rheoleiddio sylfaenol am eu bod yn berthnasol i ansawdd a safonau yn gysylltiedig â gwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (nodir fel ymarfer craidd: mae gan y darparydd weithdrefnau teg a thryloyw i ymdrin â chwynion ac apelau, sydd yn hygyrch i'r holl fyfyrwyr).

bod sefydliadau a adolygir yng nghyfnod cynharach y cylch heb fod dan anfantais o gymharu â'r sefydliadau a adolygir yn ddiweddarach yn y cylch, yn nhermau gweithgarwch gwella.

14. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cynnwys datganiad ynghylch ymagwedd strategol y sefydliad at wella profiadau academaidd myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys sut mae'r sefydliad yn ystyried adborth ac argymhellion gan y corff o fyfyrwyr. Ni cheir dyfarniad amlwg ynghylch gwella, ond bydd CCAUC yn parhau i adolygu hyn mewn ymgynghoriad â darparwyr.

15. Bydd CCAUC yn cyllido peth gweithgarwch gwella ar sail flynyddol. Yn ogystal â hynny, bydd CCAUC yn darparu cyllid ar gyfer gweithgarwch gwella ychwanegol yn y flwyddyn fraenar rhwng adolygiadau. Bydd rhywfaint o'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ac ystyried natur gwaith gwella, mae ffurf y gweithgarwch yn debygol o newid dros gylch adolygu.

16. Disgwyliwn i'r ASA:
- weithio gyda darparwyr, adolygwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill i bennu sut y gellir cryfhau elfen wella'r adolygiad, gan gydnabod y gallai hyn newid dros y cylch adolygu;
- gweithio gyda darparwyr i bennu natur a ffurf fwyaf priodol gweithgarwch gwella drwy gydol y cylch adolygu;
- ystyried sut i ddarparu ar gyfer y posibilrwydd y gallai darparwyr a adolygir ar ddechrau'r cylch fod mewn sefyllfa wahanol i'r rhai a adolygir tua diwedd y cylch, er mwyn creu cydraddoldeb;
- ystyried yn fanylach sut y gellid sicrhau gweithgarwch ansawdd ar y cyd ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn enwedig yn ystod y flwyddyn fraenar, a chan gynnwys cyfranogiad darparwyr yn Lloegr lle byddai hynny'n ychwanegu gwerth;
- cynnwys yn y fethodoleg ofyniad i adolygwyr nodi cyfleoedd yn gysylltiedig â gwella;
- sicrhau bod adroddiadau'r adolygiad yn cynnwys datganiad ynghylch ymagwedd strategol y sefydliad at wella profiad academaidd myfyrwyr;
- ymgysylltu â darparwyr drwy gydol y cylch adolygu i rannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â gwella.

<u>Ymgysylltu â myfyrwyr</u>

17. Mae'n rhaid i'r tîm adolygu gwrdd ag Undeb y Myfyrwyr ac/neu gynrychiolwyr y corff amrywiol o fyfyrwyr[2]. Yn unol â'r ymagwedd i leihau baich, dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddogfennau a lunnir yn rhan o brosesau Undeb y Myfyrwyr ei hun, er enghraifft drwy gynnwys crynodeb byr i fyfyrio ar y cyfnod ers yr adolygiad diwethaf yn yr adroddiadau ansawdd blynyddol. P'run bynnag, lle bo Undeb y Myfyrwyr yn llunio adroddiadau ansawdd blynyddol ar ran y corff o fyfyrwyr, dylai'r rhain fel arfer gael eu hystyried gan y tîm yn rhan o'r dystiolaeth

[2] Myfyrwyr rhan-amser, llawnamser, rhyngwladol, Ewropeaidd, o'r DU, ôl-raddedig, is-raddedig, aeddfed ac anhraddodiadol, myfyrwyr AU breiniol mewn AB, dysgwyr o bell a dysgwyr sy'n dewis derbyn AU drwy gyfrwng y Gymraeg

ar gyfer yr adolygiad, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall y gallai'r corff o fyfyrwyr fod am ei chyflwyno.

18. Mae'n rhaid i'r sefydliad gefnogi cyfranogiad Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr yn yr adolygiad, a darparu hyfforddiant, cyngor, arweiniad a mynediad at wybodaeth/adnoddau fel bo'n briodol.

19. Caiff Undebau Myfyrwyr gyflwyno dogfennau mewn partneriaeth â'u sefydliad, ond bydd angen iddynt sylweddoli y gallai'r newid tuag at ddogfennau sy'n bodoli eisoes neu ddogfennau mwy byw achosi rhai heriau.

20. Disgwyliwn i'r ASA:
    - weithio gydag Undebau Myfyrwyr i bennu sut i leihau'r baich o gynhyrchu cyflwyniadau myfyrwyr, ee drwy ganolbwyntio ar ddefnyddio adroddiadau ansawdd blynyddol, lle cânt eu cynhyrchu.

Dyfarniadau

21. Fel bo modd cymharu deilliannau, dylai'r adolygiad allanol gynnwys cyfres o ddyfarniadau cyffredin.

22. Defnyddir y termau a ganlyn ar gyfer dyfarniadau'r adolygiad sicrwydd ansawdd allanol yng Nghymru:
    a) Yn bodloni'r gofynion
    b) Yn bodloni'r gofynion gydag amodau - bydd angen i'r sefydliad roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael ag agweddau sy'n destun pryder uniongyrchol.[3]
    c) Nid yw'n bodloni'r gofynion.

23. Bydd yr adolygiad ansawdd allanol yn gwerthuso a yw ymagweddau sicrwydd ansawdd mewnol y sefydliad a reoleiddir yn cydymffurfio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd. Bydd hefyd yn gwerthuso a yw sefydliadau'n bodloni gofynion sylfaenol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

24. Ffurfir barn ynghylch a yw'r sefydliad yn bodloni'r canlynol ai peidio:
    - gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol;
    - gofynion perthnasol y safonau sylfaenol yn Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

25. Ceir gwybodaeth am y modd y byddwn yn ymdrin â'r canlyniadau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n bodloni'r gofynion' yn ein Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg. Os na cheir ymdriniaeth foddhaol ag unrhyw ganlyniadau drwy'r gweithdrefnau hynny, dilynir y prosesau a ddisgrifir yn ein Datganiad Ymyrraeth.

26. Os ceir unrhyw ddyfarniadau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'nid yw'n bodloni'r gofynion', bydd angen i sefydliadau roi cynllun gweithredu ar waith fel bo modd diwygio'r dyfarniad cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi canlyniad yr

[3] Bydd angen i'r amodau yn gysylltiedig â'r dyfarniad hwn gadarnhau'r problemau dan sylw.

adolygiad. Bydd angen iddynt gysylltu â'r ASA er mwyn gwirio bod y camau a gymerwyd mewn ymateb i ganlyniadau'r adolygiad wedi unioni unrhyw ddiffygion o fewn yr amserlen honno, fel bo modd uwchraddio canlyniad y dyfarniad.

27. Mae'n hanfodol bod dyfarniad yr adolygiad yn cael ei uwchraddio, gan y bydd dyfarniad adolygiad allanol yn cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer asesiad CCAUC wrth iddo benderfynu a yw sefydliadau'n bodloni gofynion ansawdd y Cynllun Mynediad a Ffioedd. Bydd hefyd angen cyhoeddi unrhyw ddiwygiad i'r dyfarniad ar ôl creu cynllun gweithredu boddhaol.

Cymeradwyaeth

28. Gellir cymeradwyo agweddau lle ceir arfer ardderchog neu arfer gorau yn gysylltiedig â phob rhan o'r adolygiad. Datganiadau fydd y rhain, yn hytrach na dyfarniadau.

Cyhoeddi adroddiadau

29. Bydd angen cyhoeddi'r adroddiad, fel y nodir yn yr ESG. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys argymhellion, yn unol â gofynion yr ESG.

Canlyniadau adolygiadau neu arolygiadau gan gyrff eraill

30. Dylai tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad gynnwys canlyniadau adolygiadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRBs), a all achredu cyrsiau penodol, ac a all hefyd adolygu/arolygu darpariaeth mewn sefydliadau a reoleiddir. Yn ogystal â hyn, mae gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) gyfrifoldeb statudol i arolygu darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, AB mewn AU, a sefydliadau addysg bellach a allai hefyd fod yn cynnig darpariaeth addysg uwch.

31. Mae adolygiadau eraill hefyd yn cynnwys canlyniadau adolygiadau'r ASA o bartneriaid wedi'u dilysu. Ystyrir bod canlyniadau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n bodloni'r gofynion' (neu ddyfarniadau cyfatebol, lle defnyddir dulliau adolygu eraill) yn adlewyrchiad ar y partner dilysu. Gall hyn ysgogi ymchwiliad i bryderon, neu ystyriaeth ddilynol yn adolygiad nesaf y partner dilysu, os bydd yr adolygiad hwnnw o fewn cyfnod rhesymol o amser.

32. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd yn esbonio sut y gall canlyniadau adolygiadau eraill ysgogi ein gweithdrefnau ar gyfer ansawdd annigonol.

Dogfennau

33. Nid ydym y bwriadu rhoi disgrifiad manwl o'r dogfennau y dylid eu defnyddio ar gyfer yr adolygiad. Fodd bynnag, er mwyn lleihau achosion o ail-wneud gwaith, lleihau baich gweinyddol a galluogi'r adolygiad i ganolbwyntio'n bennaf ar oruchwyliaeth sefydliadau dros ansawdd, dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddogfennau a lunnir yn rhan o brosesau ansawdd y sefydliad ei hun.

34. Gellir lleihau'r baich yn gysylltiedig â dogfennau mewn sawl ffordd. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio dogfennau fel adroddiadau ansawdd blynyddol sefydliad i'r corff llywodraethu yn lle’r ddogfen hunanwerthuso, gan gynnwys crynodeb byr i fyfyrio ar y cyfnod ers yr adolygiad diwethaf. Gellid defnyddio cofrestr newidiadau byw yn lle'r Adroddiad Newid.

35. Bydd sefydliadau'n dal i allu darparu dogfennau i'r tîm adolygu yn ddwyieithog, yn ôl eu dewis. Mae'n bosibl y bydd symud tuag at ddefnyddio dogfennau byw neu bresennol yn hwyluso mwy o ymgysylltu cyfrwng Cymraeg mewn adolygiadau.

36. Disgwyliwn i'r ASA:
- weithio gyda sefydliadau i bennu sut y gellir defnyddio dogfennau byw neu ddogfennau sy'n bodoli eisoes o fewn adolygiadau, yn hytrach na llunio dogfennau'n benodol i'r diben hwnnw, a chydnabod na fydd un dull yn gweddu i bob darparydd;
- gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y dull hwn yn sicrhau cysondeb o ran yr wybodaeth sy'n ofynnol, gan osgoi achosion o ail-wneud gwaith;
- gweithio gyda darparwyr i bennu sut orau i ail-gadarnhau, yn hytrach nag ail-brofi, y gofynion sylfaenol, wrth ffurfio'r dyfarniadau sicrwydd o fewn yr adolygiad.

<u>Data</u>

37. Ceir defnydd cynyddol o ddata o fewn adolygiadau, er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys y data a nodir yn y Fframwaith Asesu Ansawdd (hy, patrymau gor-recriwtio/tan-recriwtio; cyfraddau nad ydynt yn symud ymlaen; cyfraddau nad ydynt yn cwblhau; Canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Blynyddol; canlyniadau graddau, gan gynnwys canlyniadau wedi'u gwahaniaethu yn ôl myfyrwyr â gwahanol nodweddion; deilliannau cyflogaeth). Bydd CCAUC yn darparu'r data hyn i'r ASA o dan ei gytundeb rhannu data.

38. Dylai data gwmpasu pob lefel a dull darparu, gan gynnwys AU mewn AB, a bydd angen asesu'r data o safbwynt ansoddol, gan ddefnyddio gwybodaeth gyd-destunol, yn ogystal â'r asesiad meintiol. Bydd hyn o gymorth i ystyried ffactorau fel y pandemig, sy'n debygol o effeithio ar y data am sawl blwyddyn. Dylid canolbwyntio ar wybodaeth gyd-destunol, tueddiadau a pherfformiad yn erbyn meincnodau lle bo modd, ac/neu ganlyniadau darparwyr ledled y DU.

<u>Cudd-wybodaeth</u>

39. Bydd CCAUC yn rhannu cudd-wybodaeth â'r ASA a'r tîm adolygu fel bo modd i adolygiadau roi sicrwydd inni ynghylch materion a nodir drwy brosesau CCAUC. Bydd hyn yn cynnwys rhannu:
- canlyniadau agweddau perthnasol ar ein proses Adolygiadau Risg sefydliadol;
- adroddiadau ymweliadau sicrhau ansawdd teirblynyddol;
- datganiadau sicrwydd blynyddol yn gysylltiedig ag ansawdd;
- argymhellion y Pwyllgor Asesu Ansawdd yn benodol i'r sefydliad, ac ystyried data a chudd-wybodaeth;

- dadansoddiad CCAUC o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), data'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS) a data cysylltiedig;
- gwybodaeth a gaiff CCAUC am gwynion neu honiadau.

40. Byddwn hefyd yn rhannu cudd-wybodaeth am ddatblygiadau sefydliadol, a gwybodaeth gyd-destunol arall.

Amlder adolygiadau

41. Fel arfer, dylid cynnal adolygiadau bob pum mlynedd o leiaf. Bydd blwyddyn fraenar yn cael ei chynnwys yn rhan o'r cylch, fel bo modd cynnal gweithgarwch gwella dwysach.

42. Yn ogystal â hynny:
    - Mewn unrhyw achos lle bernir bod sefydliad 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', dylid cynnal adolygiad pellach ohono cyn pen pedair blynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol, hyd yn oed os yw'r farn honno wedi'i diwygio;
    - Mewn unrhyw achos lle ceir dyfarniad 'nad yw sefydliad yn bodloni'r gofynion', dylid cynnal adolygiad cyn pen dwy flynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol, hyd yn oed os yw'r dyfarniad hwnnw wedi'i ddiwygio;
    - Os cafwyd unrhyw newid sylweddol i strwythur sefydliad, ee yn sgil cyfuno â sefydliad arall, neu yn sgil dod yn rhan o strwythur grŵp, dylid cynnal adolygiad newydd o'r sefydliad yn ei gyfanrwydd fel arfer ar y dyddiad cynharaf pan oedd hi'n bryd cynnal adolygiad o unrhyw un o'r partneriaid cyfansoddol.

43. Bydd CCAUC yn gweithredu ymagwedd seiliedig ar risg wrth benderfynu a ddylai fod yn ofynnol adolygiad llawn neu rannol cynharach yn sgil unrhyw newidiadau eraill sylweddol i'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol:
    - Canlyniadau proses Adolygu Risg Sefydliadol blynyddol CCAUC;
    - datganiadau sicrwydd blynyddol y corff llywodraethu ynghylch ansawdd;
    - Cynlluniau Mynediad a Ffioedd;
    - pryderon a godir ynghylch safonau ac ansawdd; a
    - Ymgysylltiadau eraill CCAUC â sefydliadau.

    Ystyrir y rhain yng nghyd-destun prosesau ansawdd y sefydliad ei hun.

44. Bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r sefydliad a oes angen iddo gynnal adolygiad pellach er mwyn bodloni gofynion ansawdd cynlluniau Mynediad a Ffioedd. Bydd hyn hefyd yn gyfle i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth os yw o'r farn na ddylai orfod bod yn destun adolygiad o'r fath.

45. Yn dibynnu ar y mater(ion) sy'n sbarduno'r penderfyniad, gallai'r adolygiad cynharach fod yn adolygiad llawn, neu'n adolygiad o agwedd benodol/agweddau penodol ar ddarpariaeth y sefydliad. Mae newidiadau a allai sbarduno penderfyniad yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i nifer y myfyrwyr, y mathau o ddarpariaeth, darpariaeth gydweithredol ac ati.

46. Yn ogystal â hynny, fel y nodir yng Ngweithdrefnau CCAUC ar gyfer Cwynion yn erbyn Sefydliadau, gellir defnyddio ymchwiliad rhagarweiniol gan CCAUC i benderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad llawn. Yn sgil ymchwiliadau o'r fath,

mae'n bosibl y bydd adolygiad llawn cynharach yn cael ei gynnal o'r sefydliad, neu adolygiad rhannol o agwedd(au) b/penodol ar ddarpariaeth y sefydliad.

Crynodeb

47. Ceir crynodeb isod o nodweddion allweddol yr adolygiad.

| **Nodwedd** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Y sefydliad sy'n adolygu | ASA |
| Aelodaeth y tîm adolygu | Cymheiriaid arbenigol, gan gynnwys (a) aelod(au) sy'n fyfyriwr/fyfyrwyr ac aelod rhyngwladol os bydd sefydliad yn nodi ei fod yn flaenllaw yn y byd mewn meysydd astudio neu weithgarwch penodol. |
| Cwmpas yr adolygiad | Yr holl ddarpariaeth AU a ddarperir gan y sefydliad neu ar ei ran, gan gynnwys prentisiaethau gradd, darpariaeth freiniol, campysau cangen a darpariaeth arall dramor, gyda ffocws ar sicrwydd yn ogystal â gwella. |
| Gofynion sylfaenol | • Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru<br>• Disgwyliadau'r cod ansawdd<br>• Arferion craidd a chyffredin y cod ansawdd |
| Gwella | Bydd yr adolygiad yn cynnwys datganiad ynghylch ymagwedd strategol y sefydliad i wella profiad academaidd y myfyriwr. Bydd gwelliant yn ffocws allweddol i'r adolygiad. |
| Ymgysylltu â myfyrwyr | Mae'n rhaid i'r adolygiad ystyried safbwyntiau myfyrwyr cyfredol, ac mae'n rhaid cyfarfod â hwy yn rhan o'r adolygiad. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu hyfforddiant, cyngor ac arweiniad a mynediad at wybodaeth/adnoddau fel bo'n briodol, er mwyn helpu Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr i gymryd rhan. |
| Dyfarniadau | Terminoleg:<br>• Yn bodloni'r gofynion;<br>• Yn bodloni'r gofynion gydag amodau;<br>• Nid yw'n bodloni'r gofynion.<br>Dyfarniadau ynghylch a yw'r sefydliad yn bodloni'r canlynol ai peidio:<br>• gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol<br>• gofynion perthnasol y safonau sylfaenol yn Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru. |
| Diwygio dyfarniad | Gellir diwygio dyfarniad, ar wahân i ddyfarniad 'yn bodloni'r gofynion' ar ôl i'r sefydliad fynd i'r |

| | |
|---|---|
| | afael â'r mater(ion) a arweiniodd at y dyfarniad anfoddhaol o fewn 12 mis. |
| Cymeradwyaeth | Bydd cymeradwyaethau yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer rhagorol neu arfer gorau. |
| Adroddiad yr adolygiad | Mae'n rhaid ei gyhoeddi, ac mae'n rhaid iddo gynnwys unrhyw argymhellion. |
| Canlyniadau adolygiadau ac arolygiadau gan gyrff eraill | Mae'n rhaid i sefydliadau a reoleiddir roi'r wybodaeth ddiweddaraf i CCAUC am unrhyw ganlyniadau anffafriol a geir mewn adolygiadau/arolygiadau gan PSRB. Os oes goblygiadau difrifol i'r sefydliad, caiff CCAUC gychwyn y Gweithdrefnau asesu ansawdd addysg ac/neu weithredu'r Datganiad Ymyrraeth. Gallai canlyniadau anffafriol yn adolygiad partneriaid dilysu sbarduno ymchwiliad i bryderon, neu ystyriaeth ddilynol yn adolygiad nesaf y partner dilysu. |
| Dogfennau | Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio cymaint ag sy'n bosibl ar ddogfennau a gynhyrchir yn rhan o brosesau'r sefydliad ac undeb y myfyrwyr eu hunain. |
| Rhannu data a chudd-wybodaeth | Bydd CCAUC yn rhannu data a chudd-wybodaeth â'r ASA a'r tîm adolygu cyn cynnal adolygiadau |
| Amlder adolygiadau | Bob pum blynedd o leiaf. |

**Materion cysylltiedig**

48. **Yn Atodiad A** nodir prosesau a ffactorau sy'n cyfrannu at y dull adolygu.

<u>Datganiadau sicrwydd blynyddol</u>

49. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno datganiadau sicrwydd blynyddol yn gysylltiedig ag ansawdd. Bydd CCAUC yn rhannu copi o'r rhain gyda'r ASA yn rhan o'r dogfennau adolygu.

<u>Ymweliadau teirblynyddol</u>

50. Trafodir ansawdd yn rhan o ymweliadau teirblynyddol CCAUC â sefydliadau a reoleiddir. Mae'r ymweliadau'n gyson â'r amserlen ar gyfer ymweliadau'r Cyngor â darparwyr, ac wedi'u dylunio i geisio gwybodaeth bellach am y modd y galluogir y corff llywodraethu i gwblhau'r datganiadau sicrwydd blynyddol yn gysylltiedig ag ansawdd. Os yw'n briodol, bydd CCAUC yn rhannu adroddiadau'r ymweliad teirblynyddol â'r ASA cyn yr adolygiad ansawdd allanol,

51. Mae'r ymweliadau'n cynnwys ymgysylltu â'r corff llywodraethu, uwch reolwyr ac Undeb y Myfyrwyr, a ddylai gynnwys cynrychiolaeth o'r corff amrywiol o fyfyrwyr. Gallai'r ymweliad gynnwys ymholiadau'n deillio o'r adolygiad ansawdd allanol, Cynlluniau Mynediad a Ffioedd ac ymrwymiadau eraill sydd gan y sefydliad.

Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

52. Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno parhau i fod wedi'i reoleiddio fod wedi derbyn adolygiad ansawdd allanol o'i ddarpariaeth addysg uwch (neu Adolygiad Addysg Uwch: Cymru cyfatebol, neu broses ASA arall briodol) yn y chwe blynedd diwethaf. Ni fydd canlyniadau adolygiadau/arolygiadau eraill yn ddigonol. Bydd angen i sefydliadau a reoleiddir anfon dolen i'r adroddiad cyhoeddedig i CCAUC, yn rhan o'i geisiadau'n gysylltiedig â'r Cynllun Mynediad a Ffioedd. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n ceisio cael eu rheoleiddio dderbyn Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru.

53. Bydd sefydliadau sydd eisoes wedi'u rheoleiddio yn gallu gwneud cais am Gynllun Mynediad a Ffioedd wrth ymdrin â chanlyniadau unrhyw ddyfarniad(au) 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n bodloni'r gofynion'. Bydd angen iddynt gynnwys gwybodaeth i ddangos sut maent yn mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anffafriol a gafwyd yn yr adolygiad. Bydd ganddynt ddeuddeg mis i unioni'r mater(ion) a chael dyfarniad diwygiedig, cyhoeddedig gan y sefydliad a gynhaliodd yr adolygiad ansawdd allanol. Os na fyddant yn ennill dyfarniad diwygiedig o fewn y cyfnod hwnnw, tybir bod ganddynt ddarpariaeth sydd (yn debygol o fod) yn annigonol (yn y dyfodol), ac felly ni fyddant yn bodloni'r gofynion ansawdd ar gyfer sefydliadau a reoleiddir.

Y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Myfyrwyr

54. Bydd canlyniad 'yn bodloni'r gofynion' yn holl gategorïau'r adolygiad allanol yn drothwy ansawdd ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu i sefydliadau yng Nghymru, os bydd sefydliadau'n dymuno cymryd rhan yn y Fframwaith hwnnw. Ni fydd sefydliadau a gafodd ddyfarniadau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'nid yw'n bodloni'r gofynion' ond yn cyrraedd trothwy ansawdd y Fframwaith ar ôl i'r dyfarniadau hynny gael eu diweddaru.

**Atodiad A: prosesau a ffactorau sy'n cyfrannu at yr adolygiad**

